

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 4 o 6 – Yr ymgyrch

Rhagfyr 2015

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents>.

Cynnwys

Rhagfyr 2015.....	1
Cynnwys	2
Gwybodaeth hanfodol	4
Yr hyn a ganiateir mewn ymgyrch	5
Pryd y gallwch ddechrau ymgyrchu?	5
Pryd y bydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol?	5
Yn ystod yr ymgyrch, cewch.....	6
Yn ystod yr ymgyrch, dylech.....	6
Yn ystod yr ymgyrch, ni chewch... ..	7
Defnyddio'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol	8
Mynediad gan ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol.....	8
Mynediad gan restrau pleidiau.....	8
Cyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol	9
Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol.....	9
Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus	10
Postio un cyfathrebiad etholiadol am ddim	11
Telerau ac amodau'r cyfathrebiad etholiadol	11
Yr hyn a ganiateir mewn ymgyrch	12
Defnyddio argraffnodau	13
Yr hyn a ganiateir ar y diwrnod pleidleisio.....	14
Gwybodaeth atodol.....	16

Rhestr o droseddau	16
Llwgrwobrwyo	16
Anrhegu	16
Dylanwad gormodol	16
Cambersonadu	17
Datganiadau anwir	17
Gwybodaeth gofrestru anwir a chais anwir i bleidleisio drwy'r post/drwy ddirprwy	18
Cais anwir i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy	18
Troseddau sy'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy	18
Torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais	18
Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch	18
Casineb hiliol	19
Rhoi gwybod am honiadau o dwyll etholiadol.....	19
Beth os ydych wedi gwneud camgymeriad?	20

4

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar ymgyrchu yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu ar sail y ddeddfwriaeth ar ei ffurf bresennol a gwneir rhai tybiaethau am yr hyn y bydd deddfwriaeth bellach yn darparu ar ei gyfer. Felly, gallai'r canllawiau hyn newid. Byddwn yn diweddarau ac yn ailgyhoeddi'r canllawiau fel y bo'n briodol unwaith y bydd y ddeddfwriaeth yn glir.

Darperir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol efallai i rai ymgeiswyr. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os bydd gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein [Dogfen trosolwg](#) am fanylion cyswllt.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at bob ymgeisydd sy'n sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfeiriwn at ymgeiswyr nas cynhwysir ar restr plaid yn yr etholiad rhanbarthol fel 'ymgeiswyr rhanbarthol unigol'.

Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n arfer da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na **rheoleiddiol**.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau perthnasol drwy'r ddogfen gyfan, ond gallwch hefyd weld **amserlen etholiad** ar wahân yn nodi'r holl ddyddiadau allweddol ar ein gwefan.

Yr hyn a ganiateir mewn ymgyrch

Pryd y gallwch ddechrau ymgyrchu?

1.1 Gallwch ddechrau ymgyrchu unrhyw bryd. Nid oes rhaid i chi aros am enwebiad dilys er mwyn datgan eich bod am sefyll etholiad, gofyn i bobl eich cefnogi na chyhoeddi deunydd ymgyrchu.

1.2 Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol bod terfynau gwariant etholiad yn gymwys cyn yr etholiad. Mae [Rhan 3 – Gwariant a rhoddion](#) yn esbonio'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol. Bydd angen i ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol hefyd fod yn ymwybodol o'r rheolau gwariant a rhoddion ar gyfer pleidiau gwleidyddol. Rydym wedi llunio [canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ar wariant ymgyrchu](#), gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno rhestrau rhanbarthol o ymgeiswyr ar gyfer yr etholiad.

Pryd y bydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol?

1.3 Mae'r dyddiad y byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol yn berthnasol o ran y dibenion canlynol:

- rheolau ar wariant ymgeiswyr a rhoddion (gweler Rhan 3 – Gwariant a rhoddion)
- mynediad ymgeisiwyr etholaethol a rhanbarthol unigol i'r gofrestr etholwyr (gweler paragraff **1.9** isod)
- mynediad ymgeisiwyr etholaethol a rhanbarthol unigol i ystafelloedd a ariennir gan gyllid cyhoeddus ac ysgolion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus (gweler paragraff **1.22** isod)

1.4 Y cynharaf y gall unigolyn ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad y caiff y Cynulliad ei ddiddymu, sef 6 Ebrill 2016 yn ôl y disgwyl.

1.5 Byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y diwrnod hwn os byddwch, naill ai ar y dyddiad hwn neu cyn

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ar y ffordd y mae cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol yn effeithio ar ymgyrchu etholiadol. Ceir copi o'i ganllawiau yma: www.equalityhumanrights.com/electoral-guidance

Er mai'r dyddiad cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad diddymu, gall papurau enwebu gael eu cyflwyno ar ôl i'r hysbysiad etholiad gael ei gyhoeddi ac fel y'i nodir yn yr hysbysiad.

Rhaid i chi barhau i sicrhau eich bod yn gymwys i sefyll etholiad **ar yr adeg y cewch eich enwebu.**

Mae mwy o wybodaeth fanwl am sefyll etholiad ar gael yn [Rhan 1 – A allwch sefyll etholiad?](#) a [Rhan 2a – Sefyll yn yr etholiad etholaethol](#) a [Rhan 2b – Sefyll yn yr etholiad rhanbarthol.](#)

6

hynny, wedi datgan eisoes eich bod yn ymgeisydd yn yr etholiad (neu os bydd unigolyn arall wedi datgan eich bod yn ymgeisydd).

1.6 Os caiff eich papurau enwebu eu cyflwyno ar ôl y dyddiad diddymu neu os byddwch chi neu rywrai eraill, ar ôl y dyddiad hwnnw, yn datgan y byddwch yn ymgeisydd yn yr etholiad, byddwch yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad y cyflwynir eich papurau enwebu neu y gwneir y fath ddatganiad, pa un bynnag sydd gynharaf.

Yn ystod yr ymgyrch, cewch...

- Annog pobl nad ydynt ar y gofrestr etholwyr i wneud cais i gofrestru. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio mewn da bryd ar gyfer yr etholiad yw 12 diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. 18 Ebrill 2016). Gall unigolion bellach gofrestru ar-lein yn <https://www.gov.uk/register-to-vote>. Rhoddir rhagor o wybodaeth am bwy all gofrestru yn www.fymhleidlaisi.co.uk.
- Helpu pleidleiswyr gyda gwybodaeth am bleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy – rhoddir gwybodaeth yn www.fymhleidlaisi.co.uk. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost ar gyfer yr etholiadau yw 5pm ar yr 11eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. 5pm ar 19 Ebrill 2016). Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer yr etholiadau yw 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad (h.y. 5pm ar 26 Ebrill 2016, er y caiff etholwr wneud cais brys am bleidlais drwy ddirprwy os, ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad, mae wedi cael argyfwng meddygol neu wedi cael ei alw i ffwrdd ar fusnes.

Yn ystod yr ymgyrch, dylech...

- Os byddwch yn llunio eich ffurflenni cais eich hun, sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, neu caiff y ceisiadau eu gwrthod. Yn benodol, rhaid i chi sicrhau bod y meysydd llofnod a dyddiad geni ar ffurflenni cais pleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy yn y fformat cywir. Dylech ddefnyddio ein ffurflenni cais pleidlais absennol yn www.fymhleidlaisi.co.uk fel canllaw.

Dylech gysylltu â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol a all roi ffurflenni i chi eu defnyddio efallai.

- Sicrhau bod eich cefnogwyr yn dilyn y [Cod ymddygiad i ymgyrchwyr ym Mhrydain Fawr](#) – bydd hyn yn eu helpu i osgoi sefyllfaoedd lle gallai eu gonestrydd neu eu huniondeb gael ei amau.
- Sicrhau bod eich cefnogwyr yn gwrtais wrth ddelio ag ymgeiswyr eraill a'u cefnogwyr.
- Bod yn ymwybodol o'r dyddiadau cau ar gyfer penodi asiant etholiadol, ac i asiantiaid fynychu sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif. Nodir dyddiadau cau yn ein dogfen ganllaw [Rhan 2a – Sefyll yn yr etholiad etholaethol](#) a [Rhan 2b – Sefyll yn yr etholiad rhanbarthol](#).
- Darllen ein canllawiau ar y broses o agor pleidleisiau post, y broses bleidleisio a'r cyfrif fel eich bod yn gwybod beth y gallwch ei ddisgwyl a phryd (gweler [Rhan 5 – Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol](#)).
- Sicrhau bod eich systemau ar gyfer cofnodi gwariant a rhoddion yn gweithio. I gael rhagor o wybodaeth am roddion a gwariant etholiadol, gweler [Rhan 3 – Gwariant a rhoddion](#).

Yn ystod yr ymgyrch, ni chewch...

- Wneud datganiad anwir am gymeriad personol ymgeisydd arall yn fwriadol.
- Talu canfaswyr. Ystyr canfasio yw ceisio darbwylllo etholwr i bleidleisio i ymgeisydd neu blaid benodol neu yn erbyn ymgeisydd neu blaid benodol.

1.7 Rhoddir rhagor o wybodaeth am droseddau mewn etholiad a sut i roi gwybod amdanynt yn yr adran gwybodaeth atodol ar ddiwedd y ddogfen hon (o baragraff **1.50**).

1.8 Os byddwch chi, neu'ch asiant etholiadol, wedi gwneud camgymeriad ac wedi torri'r rheolau, gallwch wneud cais am

ryddhad rhag canlyniadau gwneud camgymeriad. Gweler paragraff **1.72** am ragor o wybodaeth.

Defnyddio'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol

Mynediad gan ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol

1.9 Caiff ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol gopi o'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ('y rhestrau o bleidleiswyr absennol') pan fyddant yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol fel y'i nodir ym mharagraffau **1.4** i **1.6**.

1.10 Caiff ymgeiswyr etholaethol gopïau ar gyfer yr etholaeth lle maent yn sefyll, tra caiff ymgeiswyr rhanbarthol unigol gopïau ar gyfer y rhanbarth.

Mynediad gan restrau pleidiau

1.11 Ni chaiff ymgeiswyr rhestr plaid gopïau o'r gofrestr etholwyr na rhestrau o bleidleiswyr absennol. Yn hytrach, caiff asiant etholiadol rhestr y blaid, ar ôl i restr y blaid gael ei chyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, gopi o'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gyfer y rhanbarth cyfan. Hefyd, gellir rhoi copi o'r rhestrau o bleidleiswyr absennol i unigolyn a enwebir gan y Swyddog Enwebu. Dim ond ar ôl i'r blaid gyflwyno rhestr o ymgeiswyr y gellir darparu'r gofrestr a'r rhestrau.

1.12 Fodd bynnag, caiff pleidiau gwleidyddol cofrestredig weld a defnyddio'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol ar unrhyw adeg at ddibenion etholiadol.

Gallai unrhyw un sy'n torri'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gofrestr etholwyr wynebu dirwy anghyfyngedig.

Gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig gael copi o'r gofrestr etholwyr ar unrhyw adeg.

Cyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol

1.13 Mae'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol yn cynnwys data personol pobl ac felly rheolir eu defnydd yn ofalus iawn.

1.14 Gall ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol, pleidiau ac asiantiaid etholiadol ddefnyddio'r wybodaeth ar y cofrestrau a'r rhestrau at ddibenion etholiadol.

1.15 Ni ddylid rhyddhau manylion sydd ond yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr ac nid ar y gofrestr agored sydd ar werth yn gyffredinol. Ni chaiff ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol na phleidiau:

- ddefnyddio'r gofrestr etholwyr na rhestrau o bleidleiswyr absennol at unrhyw ddiben arall, na
- rhoi copïau i rywun y tu allan i'w hymgyrch (ar wahân i rai cwmnïau prosesu data)

1.16 Os rhoddwyd copïau o'r gofrestr etholwyr neu restrau o bleidleiswyr absennol i ymgeiswyr rhestr plaid a/neu weithwyr ymgyrch, rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r gofynion uchod.

Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol

1.17 Gellir cael copïau o'r gofrestr etholwyr a rhestrau o bleidleiswyr absennol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol. Bydd Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi'i benodi ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn y rhanbarth i gynnal y cofrestrau etholwyr. Ceir manylion cyswllt yn www.fymhleidlaisi.co.uk.

1.18 Rhaid i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig ac rydym wedi darparu [ffurflen gais cofrestru](#) a [ffurflen gais rhestrau o bleidleiswyr absennol](#) at y diben hwn ar ein gwefan.

1.19 Er bod yn rhaid cyflwyno ceisiadau i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, dylai asiantiaid etholiadol ar gyfer rhestr plaid ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol hefyd gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol perthnasol, y gall fod angen iddo roi

Mae dwy gofrestr. Pam?

Gan ddefnyddio gwybodaeth gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru'n cadw dwy gofrestr – y gofrestr etholwyr a'r gofrestr agored (a elwir yn gofrestr wedi'i golygu hefyd).

Y gofrestr etholwyr

Mae'r gofrestr etholwyr yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, fel sicrhau mai dim ond pobl gymwys a all bleidleisio. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir yn y gyfraith, fel canfod trosedd (e.e. twyll), galw pobl i wasanaeth rheithgor, gwirio ceisiadau am gredyd.

Y gofrestr agored

Mae'r gofrestr agored yn rhan o'r gofrestr etholwyr, ond nis defnyddir ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw unigolyn, cwmni neu sefydliad ei phrynu. Er enghraifft, fe'i defnyddir gan fusnesau ac elusennau er mwyn cadarnhau enwau a chyfeiriadau. Gall etholwyr ofyn i'w henw a'u cyfeiriad beidio â chael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

10

trefniadau ar waith i gydgyssylltu ceisiadau ar gyfer y cofrestrau a'r rhestrau yn y rhanbarth.

1.20 Darperir y gofrestr a'r rhestrau ar ffurf electronig oni fydd cais penodol am gopi papur.

1.21 Bydd y fersiwn o'r gofrestr etholwyr a'r rhestrau a gewch yn gyfredol ar adeg eich cais. Cewch hefyd ofyn am ddiweddariadau i'r cofrestrau etholwyr a'r rhestrau a gyhoeddir yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad, gan gynnwys y rhestr o etholwyr sydd newydd gofrestru pan gaiff ei chyhoeddi bum diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

1.22 Efallai y byddwch am ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan hyrwyddo eich syniadau ac ateb cwestiynau gan y gynulleidfa.

1.23 Caiff unrhyw ymgeisydd etholaethol neu ymgeisydd rhanbarthol unigol ddefnyddio ystafelloedd a ariennir gan gyllid cyhoeddus ac ysgolion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus o'r adeg y daw'n ymgeisydd yn swyddogol fel y'inodir ym mharagraffau **1.4** i **1.6**, tan y diwrnod cyn yr etholiad. Caiff ymgeiswyr rhestr plaid wneud hyn ar ôl i ffurflen enwebu'r plaid a'i rhestr o ymgeiswyr gael eu cyflwyno.

1.24 Mae Swyddog Cofrestru Etholiadol pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cadw rhestr o leoliad ac argaeledd ystafelloedd cyfarfod yn ei ardal. Bydd y rhestr hon ar gael i ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol a Swyddog Enwebu plaid sydd wedi cyflwyno rhestr ranbarthol o'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad. Ceir manylion cyswllt pob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn www.fymheidlaisi.co.uk.

1.25 Dylech gysylltu â pherchennog y safle i drefnu ystafell. Rhaid rhoi rhybudd rhesymol, a fydd yn lleihau'r risg y caiff y cais ei wrthod.

Nid yw hawl ymgeiswyr i ddefnyddio ystafelloedd yn cynnwys yr oriau y defnyddir ysgol at ddibenion addysgol. Yn yr un modd, rhaid rhoi blaenoriaeth i unrhyw achos lle caiff ystafell gyfarfod ei llogi ymlaen llaw.

1.26 Ni chodir tâl am ddefnyddio'r ystafelloedd hyn, ond rhaid i chi dalu am unrhyw gostau yr eir iddynt, megis gwres, golau a glanhau, ac am unrhyw ddifrod i eiddo.

Postio un cyfathebiad etholiadol am ddim

1.27 Caiff pob ymgeisydd etholaethol bostio cyfathebiad etholiadol at etholwyr yn yr etholaeth am ddim.

1.28 Caiff pob ymgeisydd rhanbarthol unigol, yn ogystal â Swyddog Enwebu plaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr, bostio cyfathebiad etholiadol at etholwyr yn y rhanbarth am ddim.

1.29 Cyn cyhoeddi'r datganiad o unigolion (a phleidiau) a enwebwyd, os bydd ymgeisydd etholaethol neu ymgeisydd rhanbarthol unigol yn datgan ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, caiff arfer yr hawl hon, ond dim ond os rhoddir y sicrwydd gofynnol i'r Post Brenhinol o ran talu'r gost am bostio rhag ofn nad yw ar y datganiad perthnasol fel ymgeisydd a enwebwyd i sefyll.

1.30 Caiff plaid sydd wedi cyflwyno rhestr plaid, ond nad yw eto ar y datganiad o unigolion a phleidiau a enwebwyd yn rhywrai sy'n sefyll yn yr etholiad, arfer yr hawl hon ond dim ond os yw'r Swyddog Enwebu (neu'r sawl a benodwyd i weithredu ar ei ran) yn rhoi'r sicrwydd gofynnol i'r Post Brenhinol o ran talu'r gost am bostio rhag ofn nad yw'r plaid yn cael ei dangos fel plaid a enwebwyd i sefyll ar y datganiad.

Telerau ac amodau'r cyfathrebiad etholiadol

1.31 Rhaid sicrhau mai dim ond materion sy'n ymwneud â'r etholiad a gynhwysir yn y cyfathebiad.

1.32 Gellir talu cost am bostio am naill ai:

- un cyfathebiad etholiadol di-gyfeiriedig sydd hyd at 60 gram at bob cyfeiriad post, neu
- un cyfathebiad etholiadol sydd hyd at 60 gram at bob etholwr

12

1.33 Dylech gysylltu â'r Post Brenhinol er mwyn gwneud trefniadau os hoffech anfon cyfathrebiad etholiadol am ddim. Gall y Post Brenhinol orfodi ei delerau ac amodau rhesymol ei hun. Hefyd, rhaid sicrhau mai dim ond materion sy'n ymwneud â'r etholiad a gynhwysir mewn unrhyw ddeunydd a anfonir a rhaid iddo beidio â chynnwys unrhyw hysbysebu arall. Argymhellwn yn gryf eich bod yn dilyn canllawiau'r Post Brenhinol ar bostio deunydd cyfathrebu gan ymgeiswyr www.royalmail.com/candidatemail.

Yr hyn a ganiateir mewn ymgyrch

1.34 Rhaid i chi:

- ddefnyddio argraffnodau ar eich holl ddeunydd ymgyrch print ac unrhyw ddeunydd ymgyrch electronig a gynllunnir i'w argraffu'n lleol. Gweler paragraff **1.38** isod am ragor o wybodaeth.
- cydymffurfio â rheolau cynllunio sy'n ymwneud â byrddau hysbysebu a baneri mawr - dylech ofyn i'r awdurdod lleol perthnasol am gyngor
- sicrhau bod posteri awyr agored yn cael eu tynnu i lawr yn ddi-oed ar ôl yr etholiad - rhaid i chi wneud hyn o fewn pythefnos i'r etholiad

1.35 Dylech:

- gynnwys argraffnod ar unrhyw ddeunydd ymgyrch nas argreffir, gan gynnwys gwefannau
- ystyried sut i wneud eich ymgyrch yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg, anawsterau dysgu neu sgiliau llythrennedd isel, neu lle nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Gallech gysylltu â grwpiau anableded yn eich ardal leol am gyngor.

1.36 Ni chewch:

- gynhyrchu deunydd sy'n edrych fel y cardiau pleidleisio a anfonir at bleidleiswyr gan Swyddogion Canlyniadau

- talu pobl i arddangos eich hysbysebion (oni fyddant yn arddangos hysbysebion fel rhan o'u busnes arferol)

Defnyddio argraffnodau

Beth yw argraffnod?

1.37 Dylid ychwanegu argraffnod at unrhyw ddeunydd ymgyrch ac, yn achos deunydd print, rhaid gwneud hynny yn ôl y gyfraith, er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am ei lunio. Mae'n helpu i sicrhau bod yr ymgyrch yn dryloyw.

Beth sydd angen i chi ei gynnwys?

1.38 Ar ddeunydd print, megis taflenni a phosteri, mae'n rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad y canlynol:

- yr argraffydd
- yr hyrwyddwr
- unrhyw un y cyhoeddir y deunydd ar ei ran (ond nid yr hyrwyddwr)

1.39 Yr hyrwyddwr yw'r sawl sy'n awdurdodi cyhoeddi'r deunydd. Os yw'r hyrwyddwr yn gweithredu ar ran grŵp neu sefydliad, rhaid cynnwys enw a chyfeiriad y grŵp neu'r sefydliad hefyd.

1.40 Gallwch ddefnyddio cyfeiriad cartref neu swyddfa.

1.41 Os byddwch yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd, nid oes angen i chi gynnwys manylion yr argraffydd yn yr hysbyseb. Fodd bynnag, rhaid i'r hysbyseb gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr ac unrhyw berson y cyhoeddir yr hysbyseb ar ei ran. Os mai'r un person yw'r hyrwyddwr a'r person y cyhoeddir yr hysbyseb ar ei ran, dim ond unwaith y bydd angen cynnwys ei enw a'i gyfeiriad.

Enghraifft o argraffnod

1.42 Dylai argraffnod safonol ar gyfer ymgeiswyr etholaethol annibynnol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol edrych fel a ganlyn:

Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd].

Ceir enghreifftiau pellach o argraffnodau yn ein [taflen ffeithiau i ymgeiswyr ar ddeunyddiau ac argraffnodau etholiad](#), yn ogystal â'n [taflen ffeithiau i bleidiau gwleidyddol ar ddeunyddiau ac argraffnodau etholiad](#).

14

Hyrwyddwyd gan [enw a chyfeiriad yr asiant], ar ran [enw a chyfeiriad yr ymgeisydd].

1.43 Os yw'r ymgeisydd hefyd yn hyrwyddwr ar gyfer y deunydd, nid oes angen rhan 'ar ran' yr argraffnod.

1.44 Dylai argraffnod safonol ar gyfer plaid edrych fel a ganlyn:

Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd].

Hyrwyddwyd gan [enw a chyfeiriad yr asiant], ar ran [enw a chyfeiriad y blaid].

1.45 Ym mhob achos rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr argraffnod yn rhestru pob hyrwyddwr a sefydliad cysylltiedig.

Ble rydych yn gosod yr argraffnod?

1.46 Os yw'ch deunydd yn un ochr - megis poster ffenestr - rhaid i chi roi'r argraffnod ar wyneb y ddogfen. Os yw'n aml-ochrog, rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu'r dudalen olaf.

Gwefannau a deunydd electronig arall

1.47 Dylech hefyd osod argraffnod ar ddeunydd electronig, megis gwefannau a negeseuon e-bost. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r sefydliad y cynhyrchwyd yr argraffnod ar eu rhan.

Yr hyn a ganiateir ar y diwrnod pleidleisio

1.48 Dylech:

- sicrhau bod unrhyw rifwyr sy'n gweithio i chi yn dilyn ein [canllawiau i rifwyr](#) ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau perthnasol
- sicrhau bod eich ymgyrchwyr yn dilyn y [Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr ym Mhrydain Fawr](#) sy'n nodi'r hyn a gaiff a'r hyn na chaiff ei ystyried yn ymddygiad derbyniol mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y gymuned

Gwirfoddolwyr ymgeiswyr a phleidiau yw rhifwyr sy'n sefyll y tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi nifer yr etholwyr sydd wedi pleidleisio.

- cydymffurfio â cheisiadau gan staff gorsafoedd pleidleisio, Swyddogion Canlyniadau Etholaethol neu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ynghylch ymgyrchu ger gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, dylai fod hawl gennych gyflwyno eich negeseuon i bleidleiswyr ar y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys mewn manau cyhoeddus y tu allan i fannau pleidleisio.
- sicrhau bod unrhyw asiantiaid sy'n mynychu gorsafoedd pleidleisio, sesiynau agor pleidleisiau post neu'r cyfrif yn deall y rheolau ynghylch cyfrinachedd y bleidlais. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein dogfennau sy'n amlinellu gofynion cyfrinachedd ar gyfer [y bleidlais](#), [pleidleisiau post](#) a'r [cyfrif](#). Maent ar gael yn ddwyieithog.

1.49 Ni chewch:

- ymgyrchu ger manau pleidleisio mewn ffordd a allai gael ei gweld yn ymosodol neu'n fygythiol gan bleidleiswyr (er enghraifft, grwpiau mawr o gefnogwyr yn cario baneri, neu gerbydau ag uchelseinyddion neu â deunydd ymgyrch drostynt i gyd)
- torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais. Mae hyn yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth fodern a chymerir unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth o ddifrif.

Yn arbennig, os byddwch chi (neu eich asiantiaid) yn mynychu sesiynau agor pleidleisiau post, ni chewch geisio nodi na dangos sut y marciwyd pleidleisiau ar bapurau pleidleisio unigol.

- cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, cyhoeddi arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio nac unrhyw ddata arall yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan bobl am y ffordd y gwnaethant bleidleisio ar ôl iddynt fwrw eu pleidlais, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post

16

Gwybodaeth atodol

Rhestr o droseddau

1.50 Dylech fod yn ymwybodol o nifer o droseddau etholiadol a throeddau nad ydynt yn rhai etholiadol, a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun lle bo angen.

Llwgwobrwyo

1.51 Mae'r drosedd o llwgwobrwyo yn cynnwys, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, roi unrhyw arian neu sicrhau unrhyw swydd i unrhyw bleidleisiwr neu ar ei ran, er mwyn cymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio i ymgeisydd penodol neu fel arall.

Anrhegu

1.52 Mae unigolyn yn euog o anrhegu os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn rhoi neu'n darparu unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio. Mae a wnelo anrhegu â bwriad llygredig - nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.

Dylanwad gormodol

1.53 Mae unigolyn yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu achosi neu fygwth achosi anaf, difrod, niwed neu golled i unrhyw un er mwyn gorfodi neu gymell yr unigolyn hwnnw i bleidleisio neu beidio â phleidleisio.

Nid ydym yn rheoleiddio unrhyw rai o'r troeddau hyn.

I gael manylion am sut i roi gwybod am unrhyw honiadau o dwyll etholiadol gweler paragraff 1.67.

1.54 Gall unigolyn hefyd fod yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd yn rhwystro neu'n atal pleidleisiwr rhag arfer ei hawl i bleidleisio – hyd yn oed os na fydd yn llwyddo.

1.55 Nid yw dylanwad gormodol yn ymwneud â mynediad ffisegol i'r orsaf bleidleisio yn unig. Er enghraifft, gallai taflen sy'n bygwth defnyddio grym er mwyn cymell pleidleisiwr i bleidleisio mewn ffordd benodol hefyd fod yn ddylanwad gormodol.

Cambersonadu

1.56 Diffinnir cambersonadu fel unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall, naill ai drwy'r post neu'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio, fel etholwr neu ddirprwy. Mae'r drosedd hon yn gymwys p'un a yw'r sawl a gaiff ei gambersonadu yn fyw, yn farw neu'n ffuglennol. Mae hefyd yn drosedd cynorthwyo, annog neu beri cambersonadu.

Datganiadau anwir

Ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd

1.57 Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau anwir am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ethol ymgeisydd mewn etholiad.

1.58 Nid yw datganiadau anwir nad ydynt yn ymwneud â chymeriad personol nac ymddygiad ymgeisydd arall yn anghyfreithlon o dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllibus neu'n athrodus.

1.59 Mae hefyd yn anghyfreithlon gwneud datganiad anwir bod ymgeisydd yn tynnu ei enw'n ôl er mwyn hyrwyddo ymgeisydd arall neu achosi iddo gael ei ethol.

Mewn papurau enwebu

1.60 Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir ar bapur enwebu, pan fyddwch yn gwybod ei fod yn anwir. Er enghraifft, os ydych yn gwybod eich bod wedi'ch anghymhwysu rhag sefyll etholiad ni chewch lofnodi'r caniatâd i enwebu.

18

Gwybodaeth gofrestru anwir a chais anwir i bleidleisio drwy'r post/drwy ddirprwy

1.61 Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar ffurflen gais cofrestru, pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy. Mae gwybodaeth anwir yn cynnwys llofnod ffug.

Cais anwir i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy

1.62 Bydd unigolyn yn euog o drosedd os bydd yn gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy er mwyn cael pleidlais nad oes ganddo'r hawl i'w chael neu er mwyn atal rhywun arall rhag pleidleisio.

Troseddau sy'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy

1.63 Ceir amryw droseddau o ran aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio'n bersonol neu drwy'r post fel etholwr neu ddirprwy pan wyddoch fod anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio yn gymwys i chi a chymell rhywun arall i gyflawni trosedd neu beri iddo gyflawni trosedd.

Torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais

1.64 Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses etholiadol neu sy'n mynychu rhai digwyddiadau gadw cyfrinachedd y bleidlais. Bydd y Swyddog Canlyniadau perthnasol yn rhoi copi o'r gofynion swyddogol o ran cyfrinachedd i bawb sy'n mynychu'r sesiwn agor pleidleisiau post neu gyfrif papurau pleidleisio, ac i asiantiaid pleidleisio.

Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch

1.65 Mae rhai troseddau'n ymwneud yn benodol â deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch etholiadol. Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch etholiadol print gynnwys argraffnod a pheidio ag edrych fel cerdyn pleidleisio. Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch beidio â chynnwys datganiad anwir ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall.

Nid ydym yn rheoleiddio cynnwys deunydd ymgyrch ac ni allwn wneud unrhyw sylwadau am gyfreithlondeb unrhyw ddeunydd ymgyrch penodol y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y canllawiau hyn.

Casineb hiliol

1.66 O dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, mae'n drosedd cyhoeddi neu ddsbarthu deunydd bygythiol, ymosodol neu sarhaus y bwriedir iddo ysgogi casineb hiliol neu sy'n debygol o wneud hynny.

Rhoi gwybod am honiadau o dwyll etholiadol

1.67 Os byddwch yn poeni am dwyll etholiadol, dylech siarad yn gyntaf â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Swyddog Canlyniadau perthnasol.

1.68 Efallai y bydd yn gallu egluro p'un a gyflawnwyd twyll etholiadol ai peidio, a gall gyfeirio eich pryderon at yr heddlu os oes angen. Gall hefyd roi manylion enw cyswllt yn yr heddlu fel y gallwch roi gwybod am yr honiad eich hun.

1.69 Os bydd gennych dystiolaeth o gyflawni trosedd etholiadol, dylech gysylltu â'r heddlu **ar unwaith**, gan ddefnyddio rhif 101 ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys oni fydd trosedd yn cael ei chyflawni yn y fan a'r lle. Mae gan bob heddlu Swyddog Cyswllt Unigol penodol a fydd yn gallu darparu cyngor er mwyn sicrhau yr ymchwilir i'ch honiadau'n gywir. Dylech fod yn barod i roi datganiad iddo ac ategu eich honiad.

1.70 Ceir manylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn www.fymhleidlaisi.co.uk a cheir manylion cyswllt Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar ein [gwefan](#).

1.71 Noder, os bydd eich honiad yn ymwneud â materion cyllid ymgyrchydd plaid, etholiadol neu gofrestredig, fel gwariant a rhoddion, yna dylech ddilyn y cyngor a roddir yn:

www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement/making-allegations.

Beth os ydych wedi gwneud camgymeriad?

1.72 Os byddwch chi, neu'ch asiant, wedi gwneud camgymeriad ac wedi torri'r rheolau etholiadol, gallwch wneud cais am ryddhad rhag cosbau unrhyw drosedd.

1.73 Dylech bob amser geisio cyngor cyfreithiol os byddwch yn ystyried gwneud cais am ryddhad.

1.74 I gael rhagor o wybodaeth, dylech:

- fynd i www.hmcourts.service.gov.uk/HMCSCourtFinder/FormFinder.do, a nodi rhif y ffurflen LOC002
neu

- gysylltu â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn:

Supreme Court Cost Office
The Election Petitions Office
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London WC2A 2LL

E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk

Ffôn: 0207 947 7529

Ffacs: 0870 324 0024